

OEDFAON YR HAF

DYDD SUL, AWST 5 ^{ED}	<ul style="list-style-type: none">➤ Bydd Mr Hedd ap Emlyn yn arwain oedfa yng Nghapel Bethania, Llansannan am 10.00.➤ Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00 ac yn Saron am 2.00.➤ Trefniant lleol fydd yng Nghefn Meiriadog – mwy o fanylion i ddod.
DYDD SUL, AWST 12 ^{FED}	<ul style="list-style-type: none">➤ Bydd y Parch. Meirion Morris yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.➤ Bydd y Parch. Brian Wright yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
DYDD SUL, AWST 19 ^{EG}	<ul style="list-style-type: none">➤ Bydd Mr Gwilym Tudur yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.➤ Bydd Mr Dewi Williams yn arwain oedfa yn Llanefydd am 10.00.
DYDD SUL, AWST 26 ^{AIN}	<ul style="list-style-type: none">➤ Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00, yn Saron am 2.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 6.00.➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yng Nghefn Berain am 2.00.
DYDD SUL, MEDI 2 ^{IL}	<ul style="list-style-type: none">➤ Oedfa Pob Oed i'r Fro Gyfan yn Llansannan am 10.30 – trefniant newydd ar gyfer tymor newydd. Bydd gwaith plant yn cael ei gynnal yn y Ffestri yn ystod y gwasanaeth a phaned i bawb i ddilyn yr oedfa.
DYDD SUL, MEDI 9 ^{FED}	<ul style="list-style-type: none">➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10. Ni fydd oedfa yn Nantglyn.➤ Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.➤ Bydd Mr Arawn Glyn yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghefn Berain.➤ Bydd Mr Celfyn Williams yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi ym Mheniel am 10.00 a bydd Ysgol Sul am 2.00.

SYLWER

Cyhoeddir y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ar Fedi'r 2^{il} (cyhoeddiadau i'w hanfon erbyn Awst 29^{ain}, os gwelwch yn dda. **Os cyfyd unrhyw faterion bugeiliol dros yr haf, plŷs cysylltwch â Rhodri neu Mair.**



Llais Bro Aled

Dydd Sul, Gorffennaf 22^{ain}, 2018

Darllenid y Dydd

Ioan 13:12-16

(BCND tud.118 / BCN tud.108)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Croeso cynnes i chi i'r oedfaon heddiw ac i rifyn olaf Llais Bro Aled tan fis Medi. Dyma felly gyfle gwych i mi ddymuno'n dda i bawb fydd yn mynd i lawr i'r Sioe yn Llanelwedd ac i bob un fydd yn mwynhau mymryn o wyliau dros yr wythnosau nesaf, mwynhewch! Hoffwn hefyd ddiolch o galon i chi am bob cymorth a chyfraniad at waith ein heglwys dros y tymor diwethaf, ac yn enwedig felly i Mair a Gwion am eu holl lafur gwerthfawr fel tîm gweinidogaethol. A pheidiwch ag anghofio am yr oedfa arbennig fore Sul nesaf yng Nghefn Meiriadog lle cawn gyfle i ddiolch i Gwion am ei holl waith fel cynorthwy-ydd ym Mro Aled. Wedi'r oedfa – barbeciw, gan obeithio nad yw pawb wedi diflasu arnynt erbyn hyn!

Ydych chi'n cofio'r teimlad ar ddiwedd blwyddyn ysgol? Mae'n debyg fod y rhan fwyaf o'r cyffro yn dod o sylweddoli'r fath ryddid oedd i'w gael i wneud pethau a mynd i lefydd na fyddech fel arfer yn ymweld â nhw. Ond wrth gwrs, nid penrhyddid llwyr oedd hyn gan fod tasgau i'w gwneud a bloeddiadau i godi o'r gwely yn parhau hyd yn oed yn ystod y gwyliau. Ac wrth ddychwelyd i'r ysgol roedd digon o gyfle i siarad hefo ffrindiau a rhannu wrthynt yr hyn fu'n digwydd ers i chi gyfarfod ddiwethaf.

Meddylwch mor bwysig i Gristnogaeth yw'r ddwy agwedd yma – rhyddid a rhannu newyddion da gydag eraill. Mae'r Testament Newydd yn gyson yn atgoffa Cristnogion fod Iesu wedi marw er mwyn eu rhyddhau o gaethiwed pechod ac i fyw bywyd o gyflawnder wrth ddilyn eu Gwardedwr. 'I ryddid y rhyddhaodd Crist ni.' (Galatiaid 5:1) Ond nid yw hyn yn golygu penrhyddid. Nid yw Crist wedi aberthu ei hun er mwyn i Gristnogion ddilyn eu chwantau pechadurus heb falio dim am y canlyniadau. Y bywyd newydd y mae Duw am i'w blant ei fwynhau yw'r rhyddid i garu a gwasanaethu ein gilydd (Galatiaid 5:13 Beibl.net). Y cyfle hwnnw i wasanaethu Duw ac eraill yn yr ymwybyddiaeth nad ar sail ein gweithredoedd da y cawn ein derbyn gan Dduw, ond yn hytrach ein bod yn cyflawni gweithredoedd da gan ein bod eisoes wedi'n derbyn trwy'n ffydd yn Iesu Grist. Yn ychwanegol at y rhyddid sy'n eiddo i'r Cristion am byth, gwelir hefyd yn y Beibl gyfarwyddiadau cyson i siarad am fawredd a daioni Duw gydag eraill. 'Diolchwch i'r Arglwydd. Galwch ar ei enw, gwnewch yn hysbys ei weithredoedd ymysg y bobloedd.' (Salm 105:1) Dros weddill yr haf, gweddiwn am gymorth yr Ysbryd Glân i fwynhau'r rhyddid y mae Crist wedi ei ennill i ni, ac wrth i ni wneud hynny i gael hyder cynyddol i rannu'r Efengyl gydag eraill.

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Rhodri

Cyhoeddiadau

Y Fro

- Sul yma – 22^{ain} ➤ **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Alun Jones a bydd Rhodri yn pregethu.
- Iau – 26^{ain} ➤ **Cyfarfod Blaenoriaid a Diaconiaid y Fro** yng Nghapel Llanefydd am 7.30.

Sul nesaf – 29^{ain}

OEDFA I'R FRO

a chyfle i ddiolch i Gwion am ei gyfraniad arbennig i bob oed yng **NGHAPEL CEFN MEIRIADOG** am 10.30 y bore.

Yn dilyn yr oedfa, bwriadwn gael picnic a barbeciw a chyfle i gymdeithasu. Bydd bara, byrgers a sosejys wedi ei ddarparu i'r rhai fydd wedi rhoi eu henwau i Mair **erbyn dydd Sul, Gorffennaf 22ain.**

Plŷs dewch â beth bynnag arall fydddech chi'n ei hoffi i'w fwyta a'i yfed hefo chi.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Bydd Mr Dafydd Timothy yn arwain oedfa yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.

Saron a Pheniel

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 2.00.

Henllan a Groes

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

Llansannan a Nantglyn

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Bydd Rhodri yn arwain oedfa yn Llansannan am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Yn dilyn yr oedfa, bydd cyfarfod i drefnu rhaglen y Gymdeithas am y flwyddyn 2018-19. Croeso i bawb.
- Ni fydd oedfa yn Nantglyn.

Cyhoeddiadau

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma – 22^{ain} ➤ Cynhelir Cyfarfod Gweddi yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00. Bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg â'r oedfa yng Nghewn Berain.

I ddod

➤ RHAI O GYRSIAU HAF COLEG Y BALA:

- ⇒ **Cwrs Ieuentid (i flynyddoedd 7 – 10):** Gorffennaf 30ain – Awst 3ydd
- ⇒ **Anhrefn Awst (i blant 8-12 oed):** Awst 13eg – 16eg
- ⇒ **Souled Out (15+):** Awst 18fed – 23ain

Cofiwch fod £20 o ostyngiad i bob unigolyn mewn addysg sydd am fynd ar un o'r cyrsiau, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Mae angen llenwi ffurflen i archebu lle, a'i hanfon ynghyd â blaendâl o £10 i Goleg y Bala mor fuan ag sydd bosibl.

- **CYFARFOD GWOBWRWYO FFYDDLONIAID YR YSGOL SUL Â'R FEDAL GEE** dydd Sadwrn, Medi 29ain yn Seilo, Eglwys Unedig Gymraeg Llandudno am 2.00.

Pwyntiau Gweddi

- ⇒ Gofyn am fendith Duw ar y gwerylloedd a'r gweithgareddau i rannu'r Efengyl ar draws Cymru.
- ⇒ Gweddio ar i'r Arglwydd ddangos ei hun yn noddfa ac yn nerth i'r teuluoedd sy'n galaru.
- ⇒ Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd da yw, ac y mae ei gariad hyd byth. (Salm 106:1)



Manylion Cyswllt

Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291
Gwion – ✉ gwion@eglwysibroaled.com ☎ 01745 582644 📞 07849 591163
Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.